sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 14 Tachwedd 2023 |
| **Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro. |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Ethol Cadeirydd y Cyngor |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ac argymhellion ynglŷn ag ethol Cadeirydd y Cyngor am weddill y flwyddyn ddinesig 2023 – 2024.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen yr adroddiad yn sgil marwolaeth Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Pete Prendergast ym mis Medi 2023.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn ethol y Cadeirydd Peter Scott i swydd Cadeirydd y Cyngor am weddill y flwyddyn ddinesig 2023 – 2024.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 9 Mai 2023 cafodd y Cynghorydd Pete Prendergast ei ethol gan Gyngor Sir Ddinbych yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023 – 2024. Cafodd cyd-aelodau a swyddogion y Cyngor eu tristau'n fawr yn dilyn marwolaeth sydyn y Cynghorydd Prendergast ym mis Medi. Roedd y Cynghorydd Prendergast wedi gwasanaethu am dymor blaenorol yn Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, ym mlwyddyn ddinesig 2017 – 2018, ar ôl cael ei ethol i'r Cyngor Sir yn 2015.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.2. Mae gan y Cyngor ymrwymiad hirsefydlog i ethol Is-gadeirydd y Cyngor i swydd Cadeirydd yn ddiwrthwynebiad pan fydd cyfnod Cadeirydd y Cyngor yn dod i ben. Is-gadeirydd presennol y Cyngor yw'r Cynghorydd Peter Scott. Tra bod Is-gadeirydd yn gallu arwain cyfarfodydd y Cyngor ac ymgymryd â dyletswyddau dinesig a dyletswyddau eraill y Cyngor yn absenoldeb y Cadeirydd, yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i'r Cyngor fod â Chadeirydd etholedig, a'r argymhelliad yn yr adroddiad hwn yw ethol y Cynghorydd Peter Scott am weddill y flwyddyn ddinesig.

4.3. Byddai ethol y Cynghorydd Scott y mis hwn yn golygu mai dim ond am hanner tymor y byddai'r Cynghorydd Scott yn gwasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor cyn i'w dymor ddod i ben yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2024. Y bwriad sydd wedi'i rannu gyda'r pleidiau gwleidyddol yw bod y Cynghorydd Scott yn cael ei enwebu ym mis Mai 2024 i wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig lawn 2024 - 2025, fel y bwriadwyd yn wreiddiol (yn gyffredin â mwyafrif awdurdodau eraill, mae Sir Ddinbych yn ceisio osgoi etholiadau â mwy nag un ymgeisydd ar gyfer swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yng Nghyfarfodydd Blynyddol y Cyngor).

4.4. Mae eitem ar wahân i benodi Is-gadeirydd y Cyngor ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod Cyngor heddiw.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r penodiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y cynllun corfforaethol ond mae'n angenrheidiol ar gyfer cyfansoddiad iawn y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes yna gostau ychwanegol nac effeithiau ar wasanaethau yn sgil ethol Cadeirydd Cyngor newydd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Fe ymgynghorwyd â'r pleidiau gwleidyddol am y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Fel y nodwyd yn yr adroddiad mae ethol Cadeirydd y Cyngor yn ofyniad statudol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â swydd y Cadeirydd wedi'u cynnwys yn y cyllidebau presennol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae ethol Cadeirydd Cyngor yn ofyniad statudol. Nid oes unrhyw risgiau wedi cael eu nodi sy'n deillio o'r adroddiad hwn na'i argymhelliad.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 1972